

**Presennol:**

<b>Corff Llywodraethol</b>	<b>Cynrychiolydd</b>
Babanod Llanfairfechan	Claire Hodgkinson / Sandra Cunningham
Capel - Coed - Elan	Rhodri Dafydd / Nia Jones-Artell
Bod Alaw	Nia Kirkham
Bro Cernyw	Rhiannon Owen / Meinir Roberts / Eirian Morris
Bro Gwydir	Delyth Davies
Cerrigydrudion	Eirlys Edwards
Craig y Don	Frank Bradfield
Cynfran	Celia Peter
Cystennin - Mochdre	Hayley Pond
Eglwysbach	Einir Jones
Glan Conwy	Eifiona Price-Williams
Glanwydden	Dafydd Williams
Hen Golwyn	Cyng. Bob Barton
Llandrillo Yn Rhos	Des Jones
Llanfair Talhaearn	Julie Elliott
Llangelynnin	Mr Haydn Oliver / Ian Brown
Nant y Groes	Deborah Morley
Pant-y-Rhedyn	Cyng. Andrew Hinchliff
Pen y Bryn	Dr Wendy Kitson
Pentrefoelas	Paul Williams
Porth y Felin	Liz Hughes
Sant Elfod	Brian Churchill
Sant Joseff	Dr Michelle Romachney
Ysbyty Ifan	Meilir Jones
Ysgol Aberconwy	Terry James / Wendy Howard / Pat Hart
Ysgol Dyffryn Conwy	Huw Roberts
Ysgol John Bright	Carla Forfar
Ysgol Uwchradd Eirias	Howard Ferdinando

Ysgol y Gogarth	Dave Rowley
Gwasanaethau Addysg	Lowri Brown
Gwasanaethau Addysg	Aaron Evans
Gwasanaethau Addysg	Andrew Nixon
Gwasanaethau Addysg	Natasha Jones
Gwasanaethau Addysg	Iola Wyn-Jones
Gwasanaethau Addysg	Richard Evans
Gwasanaethau Addysg	Sioned Kearns
Gwasanaethau Addysg	Delyth Wynne (cofnodion)
Gwasanaethau Addysg	Glain Jones (cyfieithydd)

### Ymddiheuriadau:

<b>Corff Llywodraethol</b>	<b>Cynrychiolydd</b>
Awel y Mynydd	Dim Presenoldeb
Betws yn Rhos	Dim Presenoldeb
Y Bendigaid William Davies	Dim Presenoldeb
Bodafon	Dim Presenoldeb
Bro Aled	Dim Presenoldeb
Capelulo	Dim Presenoldeb
Deganwy	Dim Presenoldeb
Dolgarrog	Dim Presenoldeb
Ffordd Dyffryn	Dim Presenoldeb
Glan Gele	Dim Presenoldeb
Glan Morfa	Dim Presenoldeb
Llanddoged	Dim Presenoldeb
Llanddulas	Dim Presenoldeb
Llanefydd	Dim Presenoldeb
Maes Owen	Dim Presenoldeb
Morfa Rhianedd	Dim Presenoldeb
Pencae	Dim Presenoldeb
Penmachno	Dim Presenoldeb
San Siôr	Dim Presenoldeb

Sant George	Dim Presenoldeb
Sŵn y Don	Dim Presenoldeb
T. Gwynn Jones	Dim Presenoldeb
Tal-y-Bont	Dim Presenoldeb
Tudno	Dim Presenoldeb
Y Foryd	Dim Presenoldeb

## 1. Croeso: Dr Lowri Brown

### 2. Diweddariad ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y newidiadau arfaethedig i reoliadau llywodraethu ysgolion (Aaron Evans)

Rhoddwyd diweddariad ar y newidiadau arfaethedig i reoliadau llywodraethu ysgol. Roedd peth pryder ynghylch ymgynghori a diffyg gwybodaeth gan LIC. Bydd cyfarfod swyddog cefnogi llywodraethwyr ym Mai, ond ni fydd cyfle i ymateb i'r rheoliadau pan fyddant yn cael eu rhyddhau (yn Rhagfyr mae'n debyg).

Cwestiynau a godwyd:

- a. **Huw Roberts (Dyffryn Conwy)** – a fydd cyfle arall i roi sylwadau ar y rheoliadau newydd gan fod yr arolwg ymgynghoriad/cwestiynau gwreiddiol yn bur gymhleth?

**Dr Lowri Brown** – na yn anffodus, ond gan mai'r bwriad yw i'r gymdeithas gyfarfod yn fwy rheolaidd, gobeithiwn allu eich arwain trwy'r newidiadau hyn.

Gweithredu: Ymateb Conwy i ymgynghoriad LIC i gael ei roi ar HwB

### 3. Ymateb llywodraethwyr ynghylch mynychu cyrsiau hyfforddiant (Aaron Evans)

Darparwyd adborth o'r ymgynghoriad diweddar, ynghyd â chynigion ar gyfer 2018-19.

Gwnaed y cynigion canlynol hefyd:

- Cyng. Bob Barton (Hen Golwyn)** – gwneud rhai ymarferion gyda'r ysgol ar ôl y cwrs er mwyn rhoi'r hyfforddiant ar waith
- Huw Roberts (Dyffryn Conwy)** – Hyfforddiant yn fwy perthnasol i glwstwr ysgol a disgwyliadau clir ynghylch pwy ddylai fynychu beth. Gallai llywodraethwyr newydd gael eu mentora gan fentoriaid profiadol.
- Delyth Davies (Bro Gwydir)** – cyrsiau bob tair blynedd;
- Terry James (Aberconwy)** – mwy o bwyslais ar les disgyblion yn yr ysgol.

Mae'r ALI yn edrych ar ddatblygu cyrsiau ar y platfform HWB. Mae cylch blynyddol rheolaidd o hyfforddiant yn helpu i sicrhau na fydd unrhyw lywodraethwr yn 'colli'r'

cyfle, gan sicrhau bod cyrff llywodraethol yn cael eu cefnogi trwy ddarparu cyrsiau gorfodol i lywodraethwyr / clerod / cadeiryddion newydd. Mae cyrsiau lles hefyd yn cael eu cynnal bob blwyddyn i ddarparu cefnogaeth i lywodraethwyr i sicrhau bod ysgolion yn ddiogel, cynhyrchiol, cadarn, gyda fframweithiau diogelu yn eu lle. Gobeithiwn allu cyfathrebu'n uniongyrchol gyda llywodraethwyr ynghylch hyfforddiant yn 2018-19.

Cwestiynau a godwyd:

- e. **Liz Hughes, Porth y Felin** – a fydd sleidiau heno ar gael.  
**Aaron Evans** – byddant yn cael eu hanfon trwy e-bost a'u rhoi ar wefan Addysg.

#### **4. HWB – cefnogi llywodraethwyr Conwy (Natasha Jones):**

Cyflwynodd yr ALI ei ddogfen Trosolwg Llywodraethwyr ac amlinellu darpariaeth y dyfodol ar HWB a'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Ysgol.

Cwestiynau a godwyd:

- a. **Cyng. Bob Barton (Hen Golwyn)** – Ai'r bwriad yw i bob llywodraethwr fod â chyfeiriad e-bost HWB? Methu gweld llywodraethwyr yn llunio cyfeiriad ar wahân.  
**Natasha Jones** – dyna'r bwriad.  
**Dr Lowri Brown** – Mae oblygiad statudol i gydymffurfio ag anghenion GDPR ac rydym yn ceisio gwneud yn siŵr bod ysgolion yn gwneud yr un fath – ceisio ei gwneud yn haws i chi. Dyma'r platfform fyddwn yn ei ddefnyddio.
- b. **Wendy Kitson (Pen y Bryn)** – beth yw'r gwahaniaeth rhwng HWB a HWB Plus?  
**Natasha Jones** – HWB Plus wedi dod i ben ond bydd HWB yn parhau. Bydd ar ddisgyblion angen cyfeiriadau HWB hefyd. Mae rhai ysgolion yn defnyddio goggle, ond ysgolion yn symud tuag at gyfrifon HWB a mynediad at amrywiaeth o becynnau cymorth.
- c. **Huw Roberts (Dyffryn Conwy)** – A oes unrhyw weithio partneriaeth gyda GwE?  
**Natasha Jones** – Mae'r pecyn cymorth Adolygu Rheoli Ysgol yn ffitio i'r cymorth rhanbarthol. Dolen ar y cymorth sy'n cysylltu â mewnrwyd Conwy
- d. **Delyth Davies, Bro Gwydir** – A fydd hwn yn Llawlyfr y Llywodraethwyr?  
**Dr Lowri Brown** – bydd
- e. **Michelle Romachney (Sant Joseff)** – A yw pecyn adnodd Adolygu SM yn mynd i gael ei ddefnyddio gan Estyn i raddio ysgolion?  
**Dr Lowri Brown** – na, mae ar gyfer ysgolion i gasglu gwybodaeth i hunan werthuso cyn i Estyn gyrraedd. Ei ddefnyddio i fwydo i gynllun hunan werthuso'r ysgol.
- f. **Claire Hodgkinson, Babanod Llanfairfechan** – a fydd lle i hyfforddiant ar lein ar HWB?

**Natasha Jones** – ar gael ar lein yn bresennol – ond efallai y bydd yn symud i HWB.

g. **Cyng. Bob Barton, Hen Golwyn** – sut fyddwn yn cael Office 365?

**Natasha Jones** – dim costau trwydded, LIC yn talu amdano.

## **5. Rheoliadau Amddiffyn Data Cyffredinol (GDPR) (Andrew Nixon):**

Rhoddodd yr ALI gyflwyniad ar y gwaith a wnaed hyd yma ac amlinelliad o gefnogaeth y dyfodol yn nhermau ysgolion yn cydymffurfio â GDPR.

Gadewch i Delyth Wynne - [delyth.wynne@conwy.gov.uk](mailto:delyth.wynne@conwy.gov.uk) wybod a oes gennych unrhyw sylwadau ar yr hysbysiad preifatrwydd.

**Claire Hodgkinson (Babanod Llanfairfechan)** – a fydd plant yn deall y term ('rhestrau dargadwedd')?

Cwestiynau a godwyd:

a. **Paul Williams (Pentrefoelas)** - A ddylem ddefnyddio 'Bcc' mewn e-bost?

**Andrew Nixon** - defnyddiwch 'Bcc' i sicrhau nad yw cyfeiriad e-bost preifat yn cael ei ddefnyddio pan anfonir e-bost at grŵp o bobl.

b. **Cyng. Andrew Hinchliff (Pant y Rhedyn)** – A yw llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â GDPR?

**Dr Lowri Brown** – mae'r ALI yn gwbl atebol. Rydym yn cydnabod ei bod yn anodd i ysgolion a llywodraethwyr. Rydym yn mynd i recriwtio swyddog GD canolog i weithio gydag ysgolion i edrych ar hyn. Teimlai penaethiaid eu bod wedi'u sicrhau. Byddwn yn defnyddio wrth gefn canolog yn 2018/19.

c. **Wendy Kitson (Pen y Bryn)** – Mynegwyd pryder ynghylch ariannu'r swydd.

d. **Huw Roberts (Dyffryn Conwy)** – mae angen i ni dderbyn y cyngor a gwerthfawrogi cefnogaeth yr ALI

**Dr Lowri Brown** – mae gan ysgolion a'r ALI ran statudol ynddo.

e. **Michelle Romachney (Sant Joseff)** – A all CRhA a grwpiau eraill fanteisio ar gefnogaeth yr ALI ar gyfer GDPR?

**Dr Lowri Brown** – bydd ysgolion yn cael cefnogaeth, a mater i'r pennaeth a llywodraethwyr fydd penderfynu pa rannau o'r ysgol sydd angen cefnogaeth.

f. **Paul Williams (Pentrefoelas)** – a allwch roi sicrwydd mai eich cyfrifoldeb chi yw hyn?

**Dr Lowri Brown** – rydym am wneud hyn yn ganolog ar eich rhan.

g. **Meinir Roberts (Bro Cernyw)** – a fydd y Pennaeth yn Rheolwr?

**Dr Lowri Brown** – Mae amddiffyn data'n cael ei reoli'n ganolog. Y dull yma'n dangos cysondeb ar draws yr Awdurdod. Bydd yr unigolyn hwn yn brysur iawn y flwyddyn gyntaf, ond ar ôl y flwyddyn gyntaf bydd y galwadau'n llai.

## **6. Cymdeithas Llywodraethwyr (Aaron Evans)**

Cyflwynodd yr ALI ei farn ar y ffordd ymlaen i Gymdeithas y Llywodraethwyr.

Cwestiynau a godwyd:

- a. **Liz Hughes (Porth y Felin)** – sut ydych yn mynd i annog mwy o lywodraethwyr i gymryd rhan?

**Dr Lowri Brown** – nod hyn yw cydnabod mai gwirfoddolwyr ydych. Rhannu gyda chi fel fforwm y materion allweddol a'r datblygiadau mewn ysgolion a sut allwn eich cefnogi. Nid ein gwaith ni yn unig yw cael pobl i fynychu, mae'n waith i bawb.

- b. **Cyng. Bob Barton, Hen Golwyn** – a ellid adolygu'r dyddiad adolygu ar ddiwedd y tymor?

**Aaron Evans** – gellid, fe edrychwn ar adolygu'r dyddiad.

- c. **Dave Rowley, Y Gogarth** – mae'n fwy o waith i lywodraethwyr. Rydym wedi gwrthod cymdeithas o'r blaen. Beth sy'n wahanol nawr?

**Dr Lowri Brown** – mae gennym eisiau gweithio gyda chyrrff llywodraethol, lledaenu negeseuon ac ymwneud â hwy

Teimlai rhai aelodau y gallai cymdeithas weithredu fel grŵp pwysau i ateb cwestiynau anodd yr ALI a chael LIC i wrando, yn arbennig nawr gan nad yw Llywodraethwyr Cymru mewn bodolaeth. Croesawodd eraill y cyfle i weithio mewn partneriaeth gyda'r ALI. Byddai hyn yn helpu llywodraethwyr wybod beth sy'n mynd ymlaen ym mhob ysgol – gall llywodraethwyr deimlo'n ynysig felly mae'n bwysig cael rhwydwaith rhwng ysgolion. Heb Lywodraethwyr Cymru, bydd ar gyrrff llywodraethol angen mwy o gefnogaeth.

- d. **Cyng. Bob Barton (Hen Golwyn)** – A yw'r Gymdeithas yn siop siarad neu fforwm i ledaenu syniadau?

**Aaron Evans** – Byddai cymdeithas/fforwm yn helpu i fframio rhaglen hyfforddiant a datblygiad etc.

- e. **Dave Rowley (Y Gogarth)** – Byddwn yn cynnig bod yr ALI yn gofyn i bob corff llywodraethol weld a oes ganddynt eisiau grŵp fel sy'n cael ei gynnig?

- f. **Dafydd Williams (Glanwydden)** – awgrymu gofyn y cwestiwn ac, os yn gefnogol, a ydynt hefyd yn cefnogi'r cyfansoddiad arfaethedig.

**Dr Lowri Brown** – fe all pawb sydd eisiau bod yn rhan o grŵp ehangach yng Nghonwy fod yn rhan o un.

- g. **Claire Hodgkinson (Babanod Llanfairfechan)** – a all pob math o lywodraethwyr fynychu'r fforwm?

**Dr Lowri Brown** – gall. Mae i fyny i lywodraethwyr yr ysgol i benderfynu pwy sy'n eu cynrychioli.

- h. **Delyth Davies (Bro Gwydir)** – beth am fforwm i bob clwstwr, gyda phob un yn anfon enwebai i fforwm Conwy?

**Aaron Evans** – mae hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried.

## **7. Cynllun Strategaeth y Gymraeg Mewn Addysg (CSCMA) (Sioned Kearns)**

Rhoddodd yr ALI oblygiadau CSCMA ar ysgolion Conwy.

Mynegwyd barn ynghylch sut oedd Estyn yn cyfathrebu gyda staff, hyrwyddo amlieithrwydd a chefnogaeth i rieni (yn arbennig sut i ganfod rhai sydd angen cefnogaeth)

**Sioned Kearns (ALI)** – Siarter Iaith, Cymraeg Campus etc. yn cael rhieni i ddod ynghyd. Mae'n rhaid i ni edrych ar sut ydym yn addysgu Cymraeg a dod â rhieni a'r gymdeithas at ei gilydd mewn ffordd wahanol. Cael disgyblion a staff i ddod ynghyd. Lledaenu ymarfer da.

Cwestiynau a godwyd:

**Huw Roberts, Dyffryn Conwy** - a ydych yn gweld llywodraethwyr fel rhanddeiliaid wrth gefnogi mwy o gydweithio e.e. rhwng y Creuddyn a Dyffryn Conwy yn yr un modd mae Menter Iaith yn gweithio rhwng Llanrwst a Llandudno?

**Sioned Kearns** – ydw.

#### **8. Iechyd a Diogelwch (Richard Evans/Iola Wyn-Jones)**

Rhoddodd yr ALI gyflwyniad ar iechyd a diogelwch mewn ysgolion gan roi awgrymiadau i lywodraethwyr fynd efo hwy i'w hysgolion.

Ni chodwyd cwestiynau.